

## PRIFYSGOL BANGOR

### PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

**Cyfarfod:** Mai 21 2009

**Preseanol:** Dr A R Beaumont (Cadeirydd), Dr I Ap-Dewi, Miss S Barnes, Dr G Clarke, Mr I Connor, Mr J East, Mr H Ellis, Mr D N Fordham, Mrs L Fowlie, Mr M Goodwin, Mr J Jackson, yr Athro M Kalaji, Dr J Latchford, Mrs L Meadows, Mr G Parry, Mr J Patton, Miss E Riches, Dr D M Roberts, Mr E W. Roberts, Mr S Roberts, Mr M West, Mr A Williams, Dr D Wright, Mr G W. Jones (Ysgrifennydd).

**Ymddiheuriadau:** Dr G Roberts, Mr L Jones, Mr R Behi, Mr J Clarke, Mrs A Parry, Ms C Monks.

**Nodyn:** Diolchwyd yn ffurfiol i'r Dr M Kalaji am ei gyfraniad i'r Pwyllgor ac i iechyd a diogelwch yn gyffredinol.

#### 322. COFNODION

Cymerwyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2009 wedi'u darllen, ac fe gawsant eu cadarnhau a'u llofnodi.

#### 323. MATERION YN CODI

- a) Cofnod 313 (d) Gwasanaethau Cwnsela Staff :  
Ers 21 Ionawr 2009, roedd 22 aelod staff wedi mynd at y Rhwydwaith Cefnogwyr Staff (NOSS), a gwelwyd pawb o fewn yr amser ymateb targed. . Yn y dyfodol bydd Adnoddau Dynol yn cyflwyno adroddiadau dadansoddi tueddiadau i'r Pwyllgor er gwybodaeth.
- b) Cofnod 315 (iv & v), Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol :  
Adroddwyd bod y strwythur hyfforddi a'r trefniadau mynediad i labordai yn cael eu hadolygu.

#### 324. ADRODDIAD IS-BWYLLGOR IECHYD, DIOGELWCH A LLES MYFYRWYR

Derbyniwyd adroddiad gan yr Is-Bwyllgor. Nodwyd yr eitemau canlynol yn arbennig:

- i. Bydd y Cofrestrydd Academaidd yn cyflwyno Papur yn y cyfarfod nesaf o'r Is-bwyllgor ar y safonau i'w dilyn wrth ddelio ag achosion yn ymwneud ag anabledd neu iechyd myfyriwr sy'n gofyn am gydlynw ar draws nifer o Adrannau Academaidd a Chefnogi.
- ii. Roedd yr Ymgyrch Dim Ysmygu wedi cael croeso ac adborth cadarnhaol.
- iii. Mynegwyd pryder bod y Gwasanaeth Cwnsela Myfyrwyr yn methu â chwrdd â gofynion myfyrwyr.

Trafodwyd mater cefnogaeth gwnsela i fyfyrwyr a **chytunwyd** y dylid rhoi ystadegau manylach i Gadeirydd y Pwyllgor hwn ac y dylid codi'r mater yn y Cyngor.

### 325. ADRODDIAD Y GRŴP TASG GWEITHREDU DIOGELWCH

Derbyniwyd adroddiad gan y Grŵp Tasg. Nodwyd yr eitemau canlynol yn arbennig:

- i. Mae Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol wedi cael ei adolygu'n llawn a gofynnwyd barn twrnai arbenigol.
- ii. Ni fu'n bosib ymateb i'r cais i dreialu gwasanaeth ffisiotherapi am ddim ar yr adeg hon oherwydd sefyllfa gyllidebol ac ariannol bresennol y Brifysgol. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei hailystyried maes o law.

### 326. ADRODDIADAU ARCHWILIO AC ADOLYGU – TEITHIO DRAMOR

Eglurwyd i'r Pwyllgor y rhesymau dros adolygu'r Polisi Teithio Tramor presennol, ymgymryd â'r Archwiliad Teithio Tramor a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gael y data. Nodwyd bod yr Archwiliad wedi tynnu sylw at y canlynol:

- i. Gydag ychydig o addasiadau mae'r Polisi Teithio Tramor presennol yn addas.
- ii. Roedd problemau wedi codi oherwydd nad oedd y Polisi wedi cael ei gyfathrebu'n effeithiol ac nad oedd rhai staff a myfyrwyr wedi derbyn gwybodaeth berthnasol mewn da bryd.
- iii. Mae gan nifer o Golegau systemau a threfniadau da yn eu lle i reoli teithiau tramor gan staff a myfyrwyr.
- iv. Mae angen gwell arweiniad ynghylch gofynion proses asesu risg UMAL (yswiriant).
- v. Mae angen tudalen ar y we sydd wedi ei neilltuo ar gyfer gwybodaeth a chyfarwyddyd ynghylch teithio tramor.

Mynegwyd pryder ynghylch cyfrifoldebau iechyd a diogelwch cyrsiau breindal tramor. Yn dilyn trafodaeth **cytunwyd** y bydd y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yn adolygu'r mater hwn ar wahân.

### 327. SAFONAU POLISI I'W CYMERADWYO

Cyflwynwyd y Safonau Polisi canlynol i'r Pwyllgor i'w cymeradwyo'n ffurfiol:

- i. Asesiadau Risg
- ii. Diogelwch Gyrwyr a Cherbydau.
- iii. Gweithio y tu Allan i Oriau.

Nodwyd y bydd y Polisiâu'n dod i rym o Fedi 1 2009, ond na fydd y Gofrestr Gyrwyr ar gael tan Ionawr 2010 am resymau ymarferol.

**Cymeradwywyd** y tair Safon Polisi, sef Asesiad Risg, Diogelwch Gyrwyr a Cherbydau a Gweithio y tu allan i Oriau.

### 328. DIWYGIO'R POLISI IECHYD A DIOGELWCH 2009

Mabwysiadwyd y Polisi presennol yn 2006. Roedd y fersiwn drafft diweddaraf yn benllanw ymdrech i sicrhau bod y ddogfen fwyaf addas yn ei lle i osod y safon ac i wella iechyd a diogelwch.

Gofynnwyd am gyngor manwl gan dwrnai arbenigol gyda golwg ar gydymffurfiaid cyfreithiol a dehongliadau.

Yn dilyn trafodaeth cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol:

- i. Dylid aralleirio'r ail baragraff o dan 2.2. Cyngor y Brifysgol.
- ii. Atodiad 1 – dylid tynnu'r Rhestr Adrannau Canolog.
- iii. Dylid enwi'r Undebau Llafur.
- iv. Wyth o gynrychiolwyr staff fydd o hyd.
- v. Cyfetholir Cydlynwyr Diogelwch ychwanegol yn ôl yr angen.

Cylchredir y drafft diwygiedig o'r Polisi'n ehangach ar gyfer sylwadau gyda'r bwriad o gael y gymeradwyaeth derfynol yng nghyfarfod mis Tachwedd o'r Pwyllgor.

### **329. ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH**

Rhoddwyd crynodeb o'r Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch a nodwyd yr eitemau canlynol:

- i. Adroddir ystadegau absenoldeb salwch staff gyda mwy o hyder yn eu cywirdeb. Nodwyd bod y gyfradd absenoldeb salwch staff ar gyfer 2008 dipyn o dan y cyfartaledd ar gyfer y Sector.
- ii. Defnyddir ystadegau proffil Iechyd Staff a phroffil iechyd datblygol i deilwra cefnogaeth a mentrau i helpu staff. Mae'r proffil iechyd yn arwain y strategaeth iechyd a diogelwch gyffredinol ac yn cyflawni elfen bwysig ohoni.
- iii. Mae ystadegau Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch yn dangos cynnydd yng nghyfanswm y rhai ar y cyrsiau a drefnir yn ganolog. Yn y dyfodol caiff cyfran uwch o gyrsiau eu teilwra i anghenion penodol.
- iv. Mae cyfraddau damweiniau a digwyddiadau'n nodi bod y Brifysgol yn parhau i berfformio ychydig yn well na'r cyfartaledd yn y Sector Cenedlaethol.
- v. Mae nifer yr achosion o larymau tân yn cael eu seinio heb fod angen wedi cynyddu am y drydedd flwyddyn yn olynol ac mae angen cymryd camau pellach i fynd i'r afael â'r duedd hon sy'n peri pryder.
- vi. Mae gwaith bioberygl yn cynyddu ar draws y Brifysgol gydag adrannau academiaidd anffiolegol bellach yn gwneud gwaith sy'n defnyddio asiantau biolegol. Mae archwiliad o Fioberyglon ledled y Brifysgol i fod i gael ei gynnal i asesu'r lefel perfformiad gyffredol.
- vii. Mae'r defnydd o ffynonellau ymbelydrol wedi eu selio wedi ei leihau'n ddifawr yn y blynyddoedd diwethaf. Hefyd mae rhaglen i waredu ffynonellau ymbelydrol wedi cychwyn.
- viii. Mae Arolwg Radon o safleoedd y Brifysgol ar y gweill; cyflwynir adroddiad mewn cyfarfod Iechyd a Diogelwch rywbryd eto.

**330.**

331.

Mewn perthynas â'r Fflw Moch mae Grŵp Ymateb Pandemig y Brifysgol wedi cyfarfod i sicrhau bod cynlluniau yn eu lle rhag ofn y bydd achosion lleol ac/neu fwy o bryder. Roedd gwaith y Grŵp yn cymryd i ystyriaeth Polisiau ac arweiniad Iechyd Cyhoeddus a'r Brifysgol ac roedd yn cynnwys dosbarthu gwybodaeth gyffredinol am y Fflw Moch i'r holl staff a myfyrwyr.

#### **UNRHYW FATER ARALL**

i. Effeithiolrwydd Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y Brifysgol

Trafodwyd canfyddiadau'r holiadur a ddisbarthwyd i geisio barn aelodau ar effeithiolrwydd a gwerth y Pwyllgor. Nodwyd bod y rhan fwyaf o'r adborth wedi bod yn gadarnhaol.

ii. Mynegodd Dr M Kalaji ei ddiolch i aelodau a dywedodd wrth y Pwyllgor am 'ddal ati!'